



# Bagloriaeth Cymru: Canllawiau

Gŵyl Ymchwil Prifysgol Aberystwyth 2021:

Newid hinsawdd

## Cynnwys

Cyflwyniad .....	2
1. Ffynonellau Allweddol i Ddechrau Ymchwilio.....	3
Fideos Defnyddiol i'w Gwyllo .....	3
2. Syniadau Her Dinasyddiaeth Fyd-eang: Newid Hinsawdd Byd-eang .....	4
Cwestiynau meddwl a thrafod beirniadol defnyddiol:.....	4
Dolenni Defnyddiol i Wybodaeth: .....	5
3. Syniadau Her Menter a Chyflogadwyedd .....	6
Dolenni Defnyddiol i Wybodaeth: .....	6
4. Syniadau Her Gymunedol.....	7
Dolenni Defnyddiol i Wybodaeth: .....	7

## Cyflwyniad

I gyd-fynd a 'Cynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig' mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnal gŵyl ymchwil wythnos o hyd. Bydd hyn yn arddangos ymchwil y Brifysgol sydd yn ymwneud gyda newid yn yr hinsawdd ac yn canolbwyntio ar agweddau allweddol ar newid yn yr hinsawdd yn ogystal â thrafod atebion posibl.

Mae posib i chi ymweld a gwefan yr ŵyl yma: <https://wordpress.aber.ac.uk/research-festival/cy/gweithgareddau-ymestyn-allan/> -

Mae'r Brifysgol wedi cynhyrchu'r ddogfen hon ar gyfer disgyblion sy'n ymgymryd â Bagloriaeth Cymru ac yn cynnig canllawiau a chymorth ar sut y gall disgyblion ymgorffori newid yn yr hinsawdd yn y cymhwyster hwn. P'un a ydynt yn gwneud fersiwn Safon Uwch neu TGAU mae posib addasu y canllawiau a geir yma i gyd-fynd a anghenion y disgyblion.

Mae'r Ddogfen hon wedi'i rhannu'n bedwar prif faes. Y cyntaf yw ffynonellau allweddol ar newid yn yr hinsawdd i ddechrau eu hymchwil, yr ail yw syniadau penodol a ffynonellau defnyddiol ar gyfer yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang, yna syniadau penodol a ffynonellau defnyddiol ar gyfer yr Her Menter a Chyflogadwyedd, ac yn olaf ceir syniadau penodol a ffynonellau defnyddiol ar gyfer yr Her Gymunedol.

Mae'r holl syniadau her a ddarparwyd gennym ar gyfer pob her isod yn cyd-fynd â'r gofynion manyleb Bagloriaeth Cymru diweddaraf a ryddhawyd gan WJEC. Mae'r manylebau i'w gweld yma: [https://www.wjec.co.uk/qualifications/welsh-baccalaureate-advanced/#tab\\_overview](https://www.wjec.co.uk/qualifications/welsh-baccalaureate-advanced/#tab_overview)

Ac yma: [https://www.wjec.co.uk/qualifications/welsh-baccalaureate-national-foundation/#tab\\_overview](https://www.wjec.co.uk/qualifications/welsh-baccalaureate-national-foundation/#tab_overview)

## 1. Ffynonellau Allweddol i Ddechrau Ymchwilio

1. Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig Gwefan Glasgow 2021: <https://ukcop26.org/>
2. Gwefan y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd: <https://www.ipcc.ch/>
3. Gwefan newid hinsawdd byd-eang Nasa: <https://climate.nasa.gov/>
4. Papur ymchwil gan yr asiantaeth ynni adnewyddadwy rhyngwladol: <https://www.irena.org/publications/2021/Aug/Bracing-for-climate-impact-2021>
5. Mae'r Gymdeithas Frenhinol wedi llunio papurau ar wahanol agweddau ar atebion i'r newid yn yr hinsawdd a'r hyn sydd angen ei wneud: <https://royalsociety.org/topics-policy/projects/climate-change-science-solutions/>
6. Fideos a gynhyrchwyd gan arbenigwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth ar newid yn yr hinsawdd: [Gwyl Ymchwil / Festival of Research \(Fideos/Videos\)](#)
7. Mae darlithwyr Prifysgol Aberystwyth wedi creu cyfres fideo i drafod newid yn yr hinsawdd yn eu meysydd pwnc sydd wedi'u hanelu at fyfyrwyr Safon Uwch. Mae'r rhain i'w gweld yma o dan Brifysgol Aberystwyth a Newid Hinsawdd: <https://www.aber.ac.uk/cy/study-with-us/ug-studies/hub/aberfflics/>

## Fideos Defnyddiol i'w Gwyllo



Ted Talk: Gwyddonydd James Hansen sy'n adrodd hanes ei ymwneud â gwyddoniaeth a thrafodaeth dros newid yn yr hinsawdd yn fyd-eang.

<https://youtu.be/cmoeTSassrl>



Ted Talk: Ymchwilydd Hinsawdd y DU Alice Bows-Larkin yn sôn am sut mae newid yn yr hinsawdd yn digwydd a sut y gallwn addasu.

[https://youtu.be/fw01\\_q0cxM8](https://youtu.be/fw01_q0cxM8)

## 2. Syniadau Her Dinasyddiaeth Fyd-eang: Newid Hinsawdd Byd-eang

Cwestiynau meddwl a thrafod beirniadol defnyddiol:

A ddylid ystyried ynni niwclear yn fwy nag ynni gwynt neu ynni solar?

Sut y dylem ddatgarboneiddio gwresogi?

Beth sydd angen ei ystyried yn y maes amaethyddiaeth/bwyd o ystyried yr argyfwng hinsawdd?

Pa ynni adnewyddadwy sydd orau?

A ddylid rhoi mwy o ystyriaeth i biodanwyddau (ar gyfer trafndiaeth/gwresogi/trydan)?

Pa mor ddefnyddiol yw clociau hinsawdd? Ydyn nhw'n creu ofn neu a ydynt yn ddefnyddiol?

Faint o effaith y mae gweithredwyr hinsawdd yn ei chael?

Pwy sydd ar fai mewn gwirionedd am y newid yn yr hinsawdd?

Beth yw'r ffordd orau o weithredu economi gylchol ar gyfer y DU?

Beth sydd angen ei ystyried yn y maes trafndiaeth o ystyried yr argyfwng hinsawdd?



Tynnwyd y llun gan: Michael Mees o flickr.com



Tynnwyd y llun gan: Jerry and Pat Donaho o flickr.com

Ble mae'r cyfrifoldeb yn y pen draw wrth ystyried yr argyfwng yn yr hinsawdd, gyda'r unigolyn neu'r llywodraeth?

A ddylai rhai diwydiannau sydd yn cael effaith sylweddol ar y newid yn yr hinsawdd gael eu cyfyngu'n fwy?

A ddylai'r cyfranwyr mwyaf i allyriadau wynebu safonau llymach, a pha gosbau y dylent eu hwynebu am dorri'r safonau hyn?

A ddylai gwledydd sy'n datblygu ddisgwyl gwneud llai i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i ddatblygu?

A fydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio mwy ar gymunedau tlotach?

Sut y dylem fynd i'r afael â thwf cyflym yn y boblogaeth mewn gwledydd sy'n datblygu?

A ddylem baentio dinasoedd/tai gwyn ac aychwanegu glaswellt at doeau i'w oeri?

## Dolenni Defnyddiol i Wybodaeth:


Traciwr Gweithredu hinsawdd:

Mae'r Traciwr Gweithredu hinsawdd yn offeryn dadansoddi gwyddonol annibynnol sy'n olrhain y camau gweithredu yn yr hinsawdd y mae llywodraethau ledled y byd wedi'u cymryd ac yn ei gymharu â chytundeb Paris i weld a ydynt ar y trywydd iawn. Mae'r ddolen i'r traciwr i'w gweld yma:

<https://climateactiontracker.org/>

Mae Ted Talk hefyd wedi cynhyrchu ar fideo ar y traciwr gweithredu hinsawdd sydd i'w weld isod:

<https://youtu.be/k1oPVp63eNk>



Ffynonellau Eraill:

Mae'r Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd wedi cynhyrchu adroddiad ar y sector trafnidiaeth: [https://www.ipcc.ch/site/assets/uploads/2018/02/ipcc\\_wg3\\_ar5\\_chapter8.pdf](https://www.ipcc.ch/site/assets/uploads/2018/02/ipcc_wg3_ar5_chapter8.pdf)

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop wedi cynhyrchu erthygl ar amaethyddiaeth a newid yn yr hinsawdd: <https://www.eea.europa.eu/signals/signals-2015/articles/agriculture-and-climate-change>

Isod ceir Ted Talk ar yr effaith y gall pobl ei chael i helpu newid yn yr hinsawdd:

<https://youtu.be/LRQWXFCaOGs>



### 3. Syniadau Her Menter a Chyflogadwyedd

Mynd i'r afael a'r broblem newid yn yr hinsawdd drwy greu busnes/cynnyrch

- Mae pob grŵp yn cynnig ateb/cynnyrch gwahanol

Faint o reolaeth y dylai'r llywodraeth ei chael dros osod terfynau ar gynhyrchion busnesau o ran newid yn yr hinsawdd?

Cynnwys cynllun newid yn yr hinsawdd/ cynaliadwyedd mewn cynllun busnes.

- Pa mor eco-gyfeillgar fydd eich cwmni?
- A wnewch chi wneud eich cynnyrch allan o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu?
- A fydd gennych ddeunydd pacio di-blastig?
- A fydd eich cwmni'n plannu coed neu'n cyfrannu at weithredu yn erbyn newid yn yr hinsawdd?
- A fydd eich cwmni'n garbon negyddol neu'n niwtral?
- Beth a faint o effaith y gallai eich cynnyrch/busnes ei chael ar newid yn yr hinsawdd?
- A oes busnesau tebyg y gallwch ei gymharu i weld pa effaith y maent yn ei chael ar newid yn yr hinsawdd?

#### Dolenni Defnyddiol i Wybodaeth:

Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig. Addasu Busnes a Newid yn yr Hinsawdd:

[https://www.iccr.org/sites/default/files/resources\\_attachments/businessandclimatechangeadaptation.pdf](https://www.iccr.org/sites/default/files/resources_attachments/businessandclimatechangeadaptation.pdf)



Ted Talk: Mae Naomi Swickard, sydd wedi gweithio ar faterion datblygu cynaliadwy a newid yn yr hinsawdd ers dros ddegawd, yn sôn am sut y gall corfforaethau mawr fod yn fwy cynaliadwy.

<https://youtu.be/kz82zB1Njww>

Ted Talk: Michael Vanderberg, ysgolhaig blaenllaw mewn cyfraith amgylcheddol ac ynni, yn sôn am sut y gall cwmnïau helpu i atal cynhesu byd-eang.

<https://youtu.be/2bXNcEQ6QX0>



## 4. Syniadau Her Gymunedol

- Datblygu neu redeg menter newid yn yr hinsawdd
  - Diwrnodau di-blastig
  - Sefydlu eco-gyngor
  - Digwyddiad ecologyfeillgar
- Defnyddio tir i adeiladu gardd gynaliadwy
- Cynllunio a sefydlu prosiect gweithredu yn yr hinsawdd
- Cynllunio a sefydlu prosiect gweithredu hinsawdd
- Rhedeg clwb ar ysgol i drafod newid yn yr hinsawdd.
- Cynnal gweithdai ar sut i fod yn fwy ecologyfeillgar mewn bywyd bob dydd
- Gwirfoddoli i gefnogi prosiect ynni adnewyddadwy neu gadwraeth lleol
- Codi arian ar gyfer elusen/a neu fenter newid yn yr hinsawdd
- Helpu i osod ynni adnewyddadwy i gartrefi mewn gwledydd sy'n datblygu (e.e., paneli solar)
- Gwirfoddoli i gefnogi prosiect ynni adnewyddadwy neu gadwraeth mewn gwlad sy'n datblygu

### Dolenni Defnyddiol i Wybodaeth:

Cyfleoedd Gwirfoddoli Ar-lein yr Amgueddfa Hinsawdd:

[https://climatemuseum.org/sign-up-virtual-volunteer?gclid=EA1a1QobChMliv\\_eup7y8gIVmd\\_tCh1PJgZpEAAAYAiAAEgLMzvD\\_BwE](https://climatemuseum.org/sign-up-virtual-volunteer?gclid=EA1a1QobChMliv_eup7y8gIVmd_tCh1PJgZpEAAAYAiAAEgLMzvD_BwE)

Gwirfoddoli Dramor: Prosiectau Newid yn yr Hinsawdd:

<https://www.volunteerworld.com/en/volunteer-abroad/climate-change>

Gwefan Eco-Sgolion i ddod o hyd i wybodaeth am sut y gallwch adeiladu eco-gyngor:

<https://www.eco-schools.org.uk>

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ar sut i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy weithredu cymunedol:

<https://www.tnlcommunityfund.org.uk/news/press-releases/2020-09-17/how-to-tackle-climate-change-through-community-action>

Pecyn cymorth prosiect gweithredu hinsawdd y Genhedlaeth Hinsawdd:

<https://www.climategen.org/climate-change-resources/take-action-guide/>





# Dogfennau a Gynhyrchwyd gan Brifysgol Aberystwyth

Gŵyl Ymchwil Prifysgol Aberystwyth 2021:

Newid hinsawdd